# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mercher 18 Hydref 2005]

***Toriad 24-30 Hydref 2005***

**Dydd Mawrth 1 Tachwedd a dydd Mercher 2 Tachwedd 2005**

**Dydd Mawrth 8 Tachwedd a dydd Mercher 9 Tachwedd 2005**

**Dydd Mawrth 15 Tachwedd a Dydd Mercher 16 Tachwedd 2005**

**Dydd Mawrth 1 Tachwedd 2005**

- **Ethol i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 a Reol Sefydlog 25**

  **Rhan 3 (1 munud )**
- **The Water Supply (Exceptions from Supply System Prohibitions) Regulations 2005**

  The Water Act 2003 amended the Water Industry Act 1991 to require water undertakers in England and Wales to grant licensed water suppliers access to their supply systems under certain conditions in order to supply water to eligible premises of

customers. These draft Regulations are part of the secondary legislation necessary to implement the competition regime in water supply. The 1991 Act (as amended) prohibits the use of, or the introduction of water into, a water undertaker's supply system except by a water undertaker or a licensed water supplier in pursuance of an agreement or a licence. The Regulations specify further circumstances in which there are exceptions to this prohibition.

The Regulations are being made by the National Assembly for Wales in relation to any supply system of a water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales and by the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs in respect of all other water undertakers' supply systems. The two main Welsh water undertakers, Dwr Cymru and Dee Valley, also supply English customers, thus there will be cross border issues, which would be better managed by introducing these new provisions via Regulations jointly with the Department for Environment, Food and Rural Affairs (Defra).

- **The Water Supply Licence (New Customer Exception) Regulations 2005** The Water Act 2003 amended the Water Industry Act 1991 to require water undertakers in England and Wales to grant licensed water suppliers access to their supply systems under certain conditions, in order to supply water to eligible premises of customers.

These draft Regulations are part of the secondary legislation necessary to implement the competition regime in water supply. The competition regime is limited to eligible premises – defined as non-household premises whose annual water supply is estimated to be at least the volume threshold (the threshold has been initially set at 50 Ml/year). The threshold requirement has to be assessed when the licensed water supplier first enters into an undertaking to give a supply. These Regulations provide for the circumstances in which the threshold will not have to be reassessed as the licensee will not be regarded as entering into an undertaking with a new customer.

The Regulations are being made by the National Assembly for Wales in relation to premises supplied with water using the supply system of a water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales and in respect of other premises, by the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs. The two main Welsh water undertakers, Dwr Cymru and Dee Valley, also supply English customers, thus there will be cross border issues, which would be better managed by introducing these new provisions via Regulations jointly with the Department for Environment, Food

and Rural Affairs (Defra).

- **The Water Supply Licence (Prescribed Water Fittings Requirements) Regulations 2005**

  The Water Act 2003 amended the Water Industry Act 1991 to require water undertakers in England and Wales to grant licensed water suppliers access to their supply systems under certain conditions, in order to supply water to eligible premises of customers. The draft Regulations are part of the secondary legislation necessary to implement the competition regime in water supply. These Regulations make provisions to prevent actual or likely damage to persons or property, water contamination, waste of water and misuse or undue consumption. The Regulations extend such provisions already applying to water undertakers to include licensed water suppliers.

  The Regulations are being made by the National Assembly for Wales in relation to Wales and by the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs in relation to England.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005**

  Bydd y Rheoliadau yn cywiro mân wall trosi i Gyfarwyddeb 2001/110/EC y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y diwygiad yn ychwanegu disgrifiad ‘mêl cywasgedig’ i’r rhestr o gynnyrch mêl penodol, a all, yn ôl Nodyn 1 Atodlen 1 o’r Rheoliadau, gael ei ddisgrifio yn fêl.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Penodi Ymgynghorwyr) (Cymru)1996 drwy gymhwyso darpariaethau Rheoliadau 1996 i Ymddiriedolaethau'r GIG. Maent hefyd yn creu dau esemptiad newydd yn sgil y gofyniad i gynnal Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau i benodi ymgynghorydd. Mae'r esemptiad cyntaf ar gyfer person a fu'n ymgynghorydd gyda gwasanaethau meddygol y lluoedd arfog ac sydd wedi'i benodi'n ymgynghorydd yn un o'r cyrff y mae Rheoliadau 1996 yn gymwys iddo heb symud lleoliad neu heb i'r swydd newid mewn unrhyw ffordd sylweddol. Mae'r ail esemptiad yn gymwys i ymgynghorydd sy'n ymddeol ond sy'n dychwelyd wedi hynny i weithio mewn

swydd debyg iawn yn yr un corff, er y gallai telerau ei gyflogaeth fod wedi newid. Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu i un o'r hysbysiadau gael ei gyflwyno ar ffurf electronig ac maent yn pennu'r union ofynion ar gyfer sefydlu Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau, lle y mae dau gorff neu fwy y mae Rheoliadau 1996 yn gymwys iddynt, yn gweithredu gyda'i gilydd i sefydlu Cyd-bwyllgor Cynghori ar Benodiadau.

- **Rheoliadau Hadau Betys (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddebau Hadau’r CE sy'n rheoli'r broses o ardystio a marchnata betys, e.e. ar gyfer betys siwgr a betys porthiant, ac ati Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu'r gweithrefnau sy'n ymwneud ag ardystio hadau betys yng Nghymru, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodi lotiau hadau, cofnodi cnydau, archwilio cnydau maes, cyflwyno adroddiadau ar archwiliadau maes a dogfennau tebyg, ailraddio had a thynnu ardystiad swyddogol yn ôl. Mae'r Rheoliadau yn diddymu ac yn disodli, gyda newidiadau, Rheoliadau Hadau Betys 1993, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru. Maent hefyd yn diddymu Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) 1999 i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru a Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) 2001, yr oeddent yn diwygio Rheoliadau 1993. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ymhellach yng Nghymru y diwygiadau a wnaed yn Lloegr gan Reoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Lloegr) 2004. Mae Cyfarwyddebau Hadau’r CE sy'n ymwneud â grwpiau rhywogaeth eraill, megis grawnfwydydd a llysiau, yn cael eu gweithredu gan Reoliadau ar wahân.

- **Rheoliadau Hadau (Cofrestru, Trwyddedu a Gorfodi) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau Hadau (Cofrestru, Trwyddedu a Gorfodi) 1985 fel y'u diwygiwyd mewn perthynas â Chymru a Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985 fel y'u diwygiwyd mewn perthynas â materion sy'n codi o dan Reoliadau 1985 mewn perthynas â Chymru.

Mae cyfarwyddebau'r CE sy'n rheoli'r broses o ardystio a marchnata had o Brif Rywogaethau Amaethyddol a Llysieuol yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-Wladwriaethau gymryd rhan mewn treialon hadau a drefnir gan y Gymuned, sy'n cymharu ansawdd yr had yn erbyn gofynion y cyfarwyddebau. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (neu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gweithredu ar

ei ran) bwerau i gymryd, neu ddefnyddio, samplau at y diben hwn.

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau ar gyfer:

- cofrestru cwmnïau hadau;
- trwyddedu staff y diwydiant hadau i archwilio cnydau a samplu hadau;
- trwyddedu gorsafoedd profi hadau i gynnal profion hadau swyddogol; a
- gorfodi rheoliadau hadau, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer llunio samplau gorfodi.

Maent hefyd yn rheoli'r broses o drwyddedu staff y fasnach hadau. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i dynnu trwyddedau'n ôl oddi wrth y rheini nad ydynt, er enghraifft, yn cydymffurfio ag amodau trwyddedu neu'n methu â chynnal eu medrusrwydd. O dan y Rheoliadau newydd hyn, bydd modd apelio i'r Tribiwnlys Amrywogaethau Planhigion a Hadau, sydd â'r pwer i ddyfarnu mewn materion o'r fath, lle y caiff trwyddedau eu tynnu'n ôl. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheini y gallai penderfyniadau ynghylch eu trwyddedau effeithio ar eu cyflogaeth gael hawl i wrandawiad annibynnol.

- **Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddebau Hadau’r CE sy'n rheoli'r broses o ardystio a marchnata hadau llysiau. Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu'r gweithrefnau sy'n ymwneud ag ardystio hadau betys yng Nghymru, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodi lotiau hadau, cofnodi cnydau, archwilio cnydau maes, cyflwyno adroddiadau ar archwiliadau maes a dogfennau tebyg, ailraddio had a thynnu ardystiad swyddogol yn ôl.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n berthnasol i Gymru yn unig, yn diddymu ac yn disodli, gyda newidiadau, Reoliadau Hadau Llysiau 1993, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Maent hefyd yn diddymu Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) 1996 a Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) 1999 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru a Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001, y maent oll yn diwygio Rheoliadau 1993. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ymhellach yng Nghymru y newidiadau a wnaed yn Lloegr gan Reoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Lloegr) 2004.

Mae Cyfarwyddeb Hadau’r CE sy'n ymwneud â grwpiau rhywogaeth eraill megis grawnfwydydd a betys yn cael eu gweithredu gan Reoliadau ar wahân.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru) 2005 (15 munud)**

Ni ellir marchnata hadau o'r prif rywogaethau amaethyddol a llysieuol oni bai

eu bod wedi'u hardystio a'u bod yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion marchnata. Dim ond ar ôl i ddeunydd gael ei archwilio'n swyddogol a'i ardystio'i fod yn bodloni'r safonau gofynnol penodol (gan gynnwys purdeb, iechyd ac eginiad amrywiadau) a'i fod yn deillio o gnydau sydd hefyd wedi cwrdd â safonau penodol y gellir ei farchnata.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddebau Hadau'r CE sy'n rheoli'r broses o ardystio a marchnata betys, e.e. ar gyfer betys siwgr a betys porthiant, ac ati. Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu'r gweithrefnau sy'n ymwneud ag ardystio hadau betys yng Nghymru, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodi lotiau hadau, cofnodi cnydau, archwilio cnydau maes, cyflwyno adroddiadau ar archwiliadau maes a dogfennau tebyg, ailraddio had a thynnu ardystiad swyddogol yn ôl.

Mae'r Rheoliadau yn diddymu ac yn disodli, gyda newidiadau, Rheoliadau Hadau Betys 1993, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Maent hefyd yn diddymu Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) 1995, Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) 1997 a Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) 1999, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, a Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Cymru), y maent oll yn diwygio Rheoliadau 1993. Bydd y Rheoliadau hefyd yn gweithredu yng Nghymru y diwygiadau a wnaed yn Lloegr gan Reoliadau Hadau Grawnfwydydd (Lloegr) (Diwygio) 2004.

Mae Cyfarwyddeb Hadau'r CE sy'n ymwneud â grwpiau rhywogaeth eraill megis grawnfwydydd a llysiau, yn cael eu gweithredu gan Reoliadau ar wahân.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Diben y Rheoliadau hyn yw gweithredu yng Nghymru broses o ddisodli'r Rheol Dros Dri Deg Mis (OTM) er mwyn cynnal profion BSE ar wartheg dros dri deg mis a anwyd ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny. Dim ond yr anifeiliaid hynny sydd wedi profi'n negyddol am Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) gaiff eu caniatáu yn y gadwyn fwyd. Ar hyn o bryd mae'r rheol OTM yn un o'r tri phrif ddull o reoli BSE yn y DU ac mae'n rhwystro anifeiliaid hyn rhag mynd i'r gadwyn fwyd. Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn dechrau symud dan reolaeth tuag at ddisodli'r rheol OTM gyda chyfundrefn gadarn o brofion BSE ar wartheg dros dri deg mis a anwyd ar ôl 1 Awst 1996. Ar 15 Medi 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y DU iddi dderbyn cyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) bod system ddibynadwy o brofion BSE ar wartheg dros dri deg mis wedi'i dyfeisio a'i threialu'n llwyddiannus.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad**

**o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr (60 munud)**

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y T (5 munud)**
- **Dadl ar Dai Fforddiadwy (90 munud)**
- **Y Ddadl Fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **The Tryptophan In Food (Wales) Regulations 2005**

These Regulations continue to prohibit the use of tryptophan in foods but re-introduce the sale of laevorotatory tryptophan (L-tryptophan) as a dietary (food) supplement, with strict purity criteria and maximum recommended daily dosage of 220mg. The Regulations will provide for the necessary enforcement powers and revoke the Tryptophan in Food Regulations, which prohibit the use of tryptophan in food.

- **Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005**

Mae’r Gorchymyn hwn yn rhagnodi'r elfen credyd gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith yw os yw rhiant yn derbyn yr elfen credyd gwarant mae gan ei blentyn hawl i gael ciniawau ysgol am ddim.

- ***Cynnig i drafod y 4 eitem nesaf gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân (30 munud)***

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 10) (Cymru) 2005**

  Yr effaith y bwriedir i'r Gorchymyn ei gael yw cychwyn y rhannau hynny o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, lle mae gan y Cynulliad bwerau cychwyn a lle nad ydynt wedi eu cychwyn hyd yn hyn, gan ddod â Deddf 2002 i rym yn llawn a disodli'r Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadau Anasiantaethol) (Cymru) 2005.**

  Cynlluniwyd y Rheoliadau hyn i sicrhau bod prosesau priodol yn eu lle sy'n ymwneud â phrosesau mabwysiadu anasiantaethol. Bydd y rhain yn sicrhau diogelwch y broses pan fydd pobl am fabwysiadu plentyn nad yw wedi'i rhoi i'w fabwysiadu ganddynt gan asiantaeth fabwysiadu (mabwysiadau anasiantaethol).

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadau ag Elfen Dramor) (Cymru) 2005.**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwer disgresiwn i awdurdodau'r gwasanaethau cymdeithasol lleol godi tâl ar y rhai sy'n mabwysiadu plant o wledydd eraill am ystod o gyfleusterau a ddarperir iddynt mewn perthynas â mabwysiadu plant o wledydd tramor. Mae'r cyfleusterau hyn yn ymwneud yn bennaf â chwnsela a pharatoi asesiadau ar addasrwydd y bobl dan sylw o ran mabwysiadu plentyn o wlad benodol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadau Anasiantaethol ) (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r safonau y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu cynnal wrth ddarparu gwasanaeth mabwysiadu. Byddant yn cael eu harolygu yn erbyn y Rheoliadau hyn a'r safonau gofynnol cysylltiedig gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

  Byddant yn disodli Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Mabwysiadu) (Cymru) 2003, a wnaed o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976 a Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'r broses arfaethedig o ddiddymu Deddf 1996 a rhoi Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ei lle yn ei gwneud yn ofynnol i ddisodli'r Rheoliadau presennol.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 9 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Statement by the Minister for Education and Lifelong Learning : A whole approach to nutrition in schools (30 munud)**

- **Dadl ar Bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ynni (90 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar "Bodloni'r Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu".**
  Trafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Medi 2005

- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24. 25 (1 munud )**

- **The Fishery Products (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2005**

  These Regulations provide for the execution and enforcement by Local Food Authorities to recover a contribution towards the costs of carrying out hygiene inspection charges in respect of fish and fishery products caught in their natural environment and landed directly in Wales from:

- Member States;

- EEA States other than Member States;
- Greenland; and
- Third countries.

These charges are levied by Local Food Authorities to contribute towards costs for hygiene inspections, as direct landings of fish are not required to enter through controlled points of entry in Wales.

- **Slot wedi'i chadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (60 munud)**

- **Dadl ar y Llwybrau Dysgu (60 munud)**

**Dydd Mercher 16 Tachwedd 2005**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodir yn y rhestr o Gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**

- **Dadl ar Blant sy'n Derbyn Gofal (90 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**